# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 28 Ebrill 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i Gynrychiolydd y Comisiwn

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu tai fforddiadwy yn y Gogledd. (WAQ55956) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 05 Mai 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddarparu 6,500 o dai fforddiadwy yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Dengys ffigurau a ryddhawyd gan Is-adran Ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru fod 4,235 o dai fforddiadwy ychwanegol wedi cael eu darparu i'r rheini sydd fwyaf anghenus ledled Cymru hanner ffordd drwy dymor y Llywodraeth hon.

Yng Ngogledd Cymru darparwyd cyfanswm o 876 o dai fforddiadwy yn ystod 2007-08 a 2008-09 fel a ganlyn:

| | **2007-08 Cyflenwyd** | **2008-09 Cyflenwyd** |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 77 | 116 |
| **Gwynedd** | 85 | 93 |
| **Conwy** | 26 | 49 |
| **Sir Ddinbych** | 78 | 134 |
| **Sir y Fflint** | 61 | 74 |
| **Wrecsam** | 73 | 10 |
| **Cyfanswm** | **400** | **476** |

**Gwariant y Grant Tai Cymdeithasol**

Rhwng 2007-2008 a 2009-10, cyfanswm gwariant y Grant Tai Cymdeithasol yn y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru oedd £74,288,128. Mae'r cyllid wedi cefnogi tai anghenion cyffredinol, tai â chymorth a thai gofal ychwanegol, y cynllun Achub Morgeisi, cynlluniau adsefydlu o'r ysbyty a llety sy'n gysylltiedig â phrosiectau ar gyfer atal a thrin camddefnyddio sylweddau.

**Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol - Cyfran 1**

Mae'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi cael **£7,934,182** ar gyfer cyfnod 2008-09 a 2009-10 oddi wrth Gyfran 1 o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.

**Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol - Cyfran 2**

Gofynnwyd i'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru wneud cais am arian o dan Gyfran 2 o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol o dan y penawdau Safleoedd a Ohiriwyd, Cymorth Prynu, Rhentu Canolraddol a safleoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Gwneir cyhoeddiad yn fuan am sut y gwnaed y dyraniadau.

**Swyddogion Galluogi Tai Gwledig**

Mae nifer y Swyddogion Galluogi Tai Gwledig wedi cynyddu o bedwar i ddeg ledled Cymru â chyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Datblygu Gwledig (£150,000 y flwyddyn) dros dair blynedd o 2008-09 i 2010-11. (Bydd nifer o brosiectau yn parhau tan 2011-12).

Mae pedwar o Swyddogion Galluogi Tai Gwledig yn gweithredu ledled ardal Gogledd Cymru wedi'u hariannu ar y cyd gan yr awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Protocol Rhyddhau Tir**

Rydym wedi nodi nifer o safleoedd ledled Gogledd Cymru sy'n addas ar gyfer tai fforddiadwy o dan y Protocol Rhyddhau Tir. Mae dau o'r rhain ar hyn o bryd yn y broses o gael eu trosglwyddo i Gymdeithasau Tai; yn benodol Aston Mead yn Sir y Fflint, a Stryd y Bont yn Wrecsam, er bod Stryd y Bont yn cael ei thrin fel menter ar y cyd rhwng Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd er mwyn annog cleifion, yn enwedig ymysg grwpiau cymdeithasol-economaidd is, i ganfod canser a chyflwyno'u hunain am archwiliad er mwyn helpu i leihau nifer y marwolaethau yng Nghymru oherwydd canser. (WAQ55945)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Ar hyn o bryd mae polisi Mynd i'r Afael â Chanser (2006) Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys tair rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser y fron, canser ceg y groth a chanser y coluddyn.

Hefyd, rydym wedi defnyddio Ryan Jones, Capten tîm rygbi Cymru ar adnodd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ganser y ceilliau.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r 17 grwp sydd wedi cyflawni Statws Grwp Ymchwil Cofrestredig y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR), ar ôl ail-gomisiynu'r Seilwaith Ymchwil a Datblygu yng Nghymru. (WAQ55946)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Isod ceir rhestr o'r 17 o grwpiau sydd wedi ennill Statws Grŵp Ymchwil Cofrestredig NISCHR, yn dilyn ailgomisiynu'r Seilwaith Ymchwil a Datblygu yng Nghymru.

- Rhwydwaith Ymchwil Arennau Cymru Gyfan
- Grŵp Ymchwil Cardiofasgwlaidd Cymru
- Rhwydwaith Ymchwil Plant a Phobl Ifanc
- Rhwydwaith Ymchwil Demensia a Chlefydau Niwroddirywiol Cymru
- Rhydwaith Ymchwil Diabetes Cymru
- Anableddau Dysgu, Awtistiaeth ac Anhwylderau Niwroddatblygol
- Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Meddwl - Cymru
- Grŵp Cymhwyso Ymchwil Microbioleg a Heintiau
- Rhwydwaith Pobl Hŷn a Phobl sy'n Heneiddio
- Grŵp Ymchwil Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Gofal Iechyd
- Rhwydwaith Ymchwil Gwella Iechyd y Cyhoedd
- Rhwydwaith Ymchwil Thematig ar gyfer Triniaeth heb ei Threfnu a Thriniaeth Frys
- Uned Treialon Canser Cymru
- Rhwydwaith Ymchwil Epilepsi Cymru
- Ysgol Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Cynradd

- Rhwydwaith Ymchwil Arthritis Cymru
- Ymchwil yr Ysgyfaint Cymru

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu copïau o Gynlluniau Gweithredu Byrddau Iechyd Lleol unigol ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau Canser Cenedlaethol fel y gall mudiadau sy'n rhanddeiliaid gydweithio er mwyn cyflawni'r safonau hyn. (WAQ55947)

***Rhoddwyd ateb ar 05 Mai 2010***

Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn eiddo i'r Byrddau Iechyd Lleol. Mae eu gweithredu'n dibynnu ar ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod holl staff y GIG yn cael eu profi'n effeithiol ar gyfer T.B. (WAQ55948)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Caiff gweithiwyr gofal iechyd newydd y GIG eu sgrinio am TB yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru (2006)086:
http://new.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/circulars/2007/WHC2006086?lang=en

Cyfrifoldeb yr Adrannau Iechyd Galwedigaethol o fewn pob un o sefydliadau'r GIG yw darparu'r canllawiau hyn. Cynghorir staff sy'n wynebu mwy o risg o gael TB i geisio cyngor meddygol ar unwaith os byddant yn dangos unrhyw symptomau a fyddai'n nodi haint TB.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i roi sylw i'r cynnydd mewn achosion o T.B. yng Nghymru. (WAQ55949)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Mae cyfraddau Twbercwlosis wedi parhau'n eithaf sefydlog dros y ddeng mlynedd ddiwethaf yng Nghymru gyda rhwng 150 a 200 o achosion y flwyddyn, ac maent yn is na chyfartaledd y DU. Mae'r data dros dro ar gyfer 2009 yn dangos cynnydd yn nifer yr achosion a nodwyd o gymharu â 2008, ond nid yw hyn o reidrwydd yn dangos tuedd gynyddol gyffredinol mewn achosion o TB yng Nghymru.
Targedir imiwneiddio yn erbyn TB at unigolion sy'n wynebu'r risg mwyaf. Mae Iechyd y Cyhoedd Cymru yn goruchwylio TB yn barhaus ac yn ymchwilio i unrhyw achosion o TB yng Nghymru, gan gymryd camau ar unwaith pan fo angen.
Mae'r broses statudol o roi gwybod am bob achos o TB yng Nghymru yn sicrhau y gellir ymchwilio i bob achos a chysylltiad a allai fod yn wynebu risg o gael haint yn gyflym. Yna gellir cymryd y mesurau ataliol neu therapiwtig priodol i atal y clefyd rhag lledaenu.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth oedd y cynnydd yn nifer yr achosion o T.B. a gofnodwyd yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010 (yn cynnwys y misoedd hynny) o'i gymharu â'r pum mlynedd blaenorol. (WAQ55950)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mai 2010***

Nid oes data ar gyfer achosion o TB yn 2010 ar gael eto ac mae ffigurau ar gyfer 2009 yn rhai dros dro o hyd. Felly, nid yw'n bosibl darparu data ar gyfer y cyfnod dan sylw.
Gellir gweld achosion a gofnodwyd o 1999 ymlaen ar wefan Iechyd y Cyhoedd Cymru:
http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgId=457&pid=27952

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i roi mynediad at brofion diagnostig cyflym mewn achosion lle mae canser yn cael ei amau. (WAQ55951)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu targed o 62 diwrnod o'r amser y caiff cleifion, yr amheuir bod ganddynt ganser, eu hatgyfeirio fel achosion brys i'r adeg y maent yn dechrau cael triniaeth ddiffiniol. Er mwyn cyflawni'r targed cyffredinol hwn, mae angen cael mynediad cyflym i bob rhan o'r llwybr, gan gynnwys profion diagnostig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnal cyfarfodydd perfformiad misol yn rheolaidd â phob Bwrdd Iechyd Lleol, ac mae perfformiad yn ymwneud â chanser yn un o'r eitemau ar yr agenda.

Mae adroddiadau ar berfformiad ar gael o wefan StatsCymru drwy'r ddolen ganlynol;
http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportFolders.aspx

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o feddygon iau sydd wedi gadael Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr ar ôl cwblhau'r cam F1. (WAQ55954)

***Rhoddwyd ateb ar 05 Mai 2010***

Gan mai ym mis Hydref 2009 y ffurfiwyd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr nid yw eto'n bosibl rhoi niferoedd y rhai sy'n gadael y Rhaglen Sylfaen o'r Bwrdd Iechyd hwnnw.

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint o feddygon iau y mae Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr yn eu cyflogi ym mhob un o'r graddau canlynol: (a) F1, (b) F2, ac (c) graddau hyfforddi. (WAQ55955)

***Rhoddwyd ateb ar 05 Mai 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon gennym yn ganolog.

## *Gofyn i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth yw'r rhagamcanion o'r costau i Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer y 3 blynedd nesaf o ran darparu gwersi Cymraeg i a) Aelodau Cynulliad, b) Staff Cymorth Aelodau Cynulliad ac c) staff y Comisiwn. (WAQ55952)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Ebrill 2010***

**Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad, William Graham AM:** Cynhelir etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2011 ac mae goblygiadau hyn o ran y posibilrwydd o Aelodau Cynulliad a staff cymorth newydd, ynghyd â goblygiadau ail-dendro'r contract cefnogaeth iaith Gymraeg i Aelodau'r Cynulliad/ Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ar ddechrau 2010, yn golygu ei bod yn anodd rhagamcanu'r gost o ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg yn fanwl gywir. Dylid darllen yr amcangyfrifon a ganlyn gyda hynny mewn golwg. Yn seiliedig ar giplun o'r nifer sy'n dilyn hyfforddiant ar hyn o bryd, mae'r amcangyfrifon cost wedi'u dosrannu rhwng Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth.

**Amcangyfrifon cost dros y 3 mlynedd nesaf**

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad | £9,000 | £9,270 | £9,548 |
| Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | £3,808 | £3,922 | £4,039 |
| Staff y Cynulliad | £19,040 | £19,611 | £20,199 |
| **Cyfanswm** | **£31,848** | **£32,803** | **£33,786** |

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth yw cyfanswm y gwariant gan Gomisiwn y Cynulliad ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf ar gyfer darparu gwersi Cymraeg i a) Aelodau Cynulliad, b) Staff Cymorth Aelodau Cynulliad ac c) staff y Comisiwn. (WAQ55953)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Ebrill 2010***

**Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad, William Graham AC:**

**Gwariant ar hyfforddiant iaith Gymraeg dros y pum mlynedd ddiwethaf**

| | 2009-10 | 2008-09 | 2007-08 | 2006-07 | 2005-06 |
|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth | £12,943.92 | £13,654.00 | £7,789.60 | £7,534.00 | £9,427.00 |
| Staff y Cynulliad | £13,721.70 | £20,649.10 | £10,183.44 | £14,822.10 | £8,065.19 |
| **Cyfanswm** | **£26,665.62** | **£34,303.10** | **£17,973.04** | **£22,356.10** | **£17,492.19** |

Nodir y gost o ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad fel un ffigur gan y darperir yr hyfforddiant gan un darparwr (@SianT) a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y ffordd y cofnodir a chedwir y wybodaeth. Ni ystyrir ei fod yn ddichonadwy i ddosrannu'r gwir gostau rhwng y ddau grŵp wrth edrych yn ôl. Mae'r costau yn amrywio o un flwyddyn ariannol i'r llall o ganlyniad i wahaniaethau o ran y nifer sy'n dewis gwneud y cyrsiau bob blwyddyn. Efallai daeth y cynnydd mewn galw yn 2008-09 o ganlyniad i weithredu Cynllun Iaith y Cynulliad a lansiwyd yn ystod haf 2007.